# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 11eg o Ebrill, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Tabor, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Sianelen Pleming** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Sianelen Pleming **(SP)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**YN BRESENNOL HENO ROEDD:**<br>Sara Williams **(SW);** Gethin Jones **(GJ)**; Lisbeth James **(LJ)**; Lois Fychan **(LF);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Ynyr Ellis **(YE);** Emlyn Williams **(EW);** Cyng. Jina Gwyrfai **(JG)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN:**<br>Olwen Roberts **(OR);** William Jones **(WJ).** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2023** |
| | **i. CYFLWYNO A MABWYSIADU**<br>Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GJ gyda SW yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**ii. MATERION YN CODI**<br><br>**i. PARCIO PERYGLUS**<br>Nid oedd y Cyngor Sir yn gallu amharu a galw ar berchennog y car gan nad oes llinellau melyn ar y sefyllfa, roeddent yn argymell i drafod gyda'r Rhingyll lleol.<br>Adroddodd y Rhingyll er mai nad yw parcio ar y pafin yn drosedd mae creu rhwystr i'w ddefnydd yn. Roedd yn argymell adrodd y mater ar wefan yr Heddlu.<br>Yn dilyn gwybodaeth bellach oedd wedi ei dderbyn cytunodd yr aelodau gnoi cil ac ail drafod y mater mewn mis.<br><br>**ii. Y LLAIN TIR TRWY'R PENTREF (CEIR YN PARCIO A'I DROI YN FWD)**<br>Cafwyd y mater ei drafod yng Nghyfarfod y Pentrefwyr ar y 27 o Fawrth, cytunwyd yn ystod y cyfarfod mae harddu'r tir fyddai'r ffordd orau ymlaen. Bydd SP yn adrodd am ddiweddariadau parthed trywydd unrhyw gyllid.<br><br>**iii. CYNNIG GAN GETHIN JONES I GEISIO NEWID RHEOLAU TAI TEG**<br>Roedd JG wedi llythyru a Chynghorau Cymuned Dwyfor yn gofyn am gefnogaeth.<br>Hyd yn hyn roedd 5 ymateb cadarnhaol wedi ei dderbyn – cytunwyd rhoi mis arall i atgoffa'r Cynghorau i ymateb. JG I weithredu.<br><br>**iv. GJ – TWYLL TRETH CYNGOR**<br>Ymddiheurodd y Pennaeth Cyllid gan nad oedd wedi gyrru esboniad swyddogol yn esbonio pan nad oedd diweddariad yn cael ei rhannu. Rhoddodd fraslun yn esbonio rhwystrau rheoli data. Esboniodd ymhellach bydd hoel troed ariannol yn cael ei gasglu gan ddau inspector sydd ar gael i Wynedd gyfan, i berwyl hyn mae adnoddau yn brin. Maent yn defnyddio Data Tank i wneud ymholiadau. Roddodd wybod bod y Cyngor Sir yn croesawu gwybodaeth fel hyn. |

| | |
|---|---|
| | **v.** **GJ – DIFFIBLWR AR GYFER PISTYLL**<br>Cytunodd LJ i drafod y mater gydag Elfed Morgan<br><br>**vi.** **CWYN I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG PARTHED HYFFORDDIANT CYMRAEG**<br>Y clerc i rannu ymateb y Comisiynydd gyda Chynghorau Cymuned eraill yn gofyn am eu cefnogaeth. |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Nid oedd dim wedi ei ddatgan |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol.<br><br>Gofynnodd SP am unrhyw wybodaeth gan yr aelodau am y sawl a chyfrifoldeb am y Cof Golofn yn Llithfaen a chynigiodd efallai bydd ei ail lleoli i'r llain tir sydd angen ei harddu yn syniad - y clerc i wneud ymholiadau a Chyngor Gwynedd. |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w drafod ar y noson. |
| **7.** | **CYFYNGIADAU PARCIO ARFAETHEDIG SIOP Y GROES** |
| | Derbyniwyd sylwadau gan drigolion yn ystod y mis ac fe'u gyrrwyd ymlaen i'r adran Traffig. Cytunwyd bydd Yr adran yn addasu'r cyfyngiad arfaethedig blaenorol i '**Aros Cyfyngedig 45 mun Dim Dychwelyd 1 Awr 7yb i 7yh**'. Nid oedd posib gorfodi dros y nos. |
| **8.** | **GEIFR GWYLLT YR ARDAL** |
| | Adroddodd y clerc ymateb oedd wedi ei dderbyn gan y Swyddog ANHE i gais y Cyngor am wybodaeth parthed yr adroddiad am y geifr cafwyd ei wneud yn ddiweddar. Esboniodd bod yr adroddiad wedi comisiynu gan Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn oherwydd pryderon fod nifer y geifr yn cynyddu ac effaith negyddol posibl ar goed gwarchodedig a choed cynhenid a fwriedir eu plannu. Derbyniodd Ymddiriedolaeth y Nant grant trwy'r Gronfa Datblygu Gynaliadwy tuag at gostau'r adroddiad. Mae'r Uned AHNE yn cynorthwyo i weinyddu'r Gronfa yma ar ran Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.<br><br>Nid yw'r Uned AHNE wedi datgan unrhyw safbwynt ar fater y geifr gwyllt. Credir mai mater lleol i gytuno ydi hwn yn wyneb yr wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael - ac y gallai'r adroddiad a gomisiynwyd fod yn help yn hyn o beth. Awgrymir cynnal cyfarfod rhwng Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn, Cynghorau Cymuned Pistyll a Trefor a'r Cynghorydd lleol i drafod y mater.<br><br>Roedd y clerc hefyd wedi trafod gyda Mair Saunders a gofyn am gopi o'r adroddiad. Adroddodd bod hyn yn fater sensitif a rhannodd bryderon am eifr yn dioddef a mastitis. Bydd yn trefnu cyfarfod pellach yn y Nant yn fis Mehefin.<br>Rhoddodd wybod ei bod mewn trafodaethau a'r Cynghorydd Lleol ar y mater, ni dderbyniwyd copi o'r adroddiad.<br>Roedd yn siomedig nad oedd hi yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd y Cyngor Cymuned a bydd yn falch i fynychu yn y dyfodol agos.<br><br>Cytunodd yr aelodau ymestyn gwahoddiad iddi i gyfarfod Mai'r Cyngor. Y clerc i weithredu. |

| | |
|---|---|
| **9.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP nad oedd dim i'w adrodd – rhoddodd wybod bod yr holiadur wedi cael 40 o ymateb hyd yn hyn. |
| **10.** | **MAES PARCIO, NANT** |
| | Yn dilyn ymholiadau am y llain tir ychwanegol i'w gofrestru, cadarnhawyd gyda Gwilym Williams bod y tir wedi cael ei drin fel y disgrifir yn y datganiad gwreiddiol gan y Cyngor. Bydd y Cyfreithiwr nawr yn gofyn i'r Gofrestrfa Tir ystyried hyn fel rhan o'r cais gwreiddiol ond nid oes sicrwydd y byddant yn cymeradwyo'r cais. Os hynny, efallai y byddent yn mynnu fod cais o'r newydd yn cael ei anfon mewn perthynas â'r tir ychwanegol.<br><br>Adrodd SP bod moduron gwersylla wedi cychwyn cyrraedd ac yn aros dros nos yn y maes Parcio - Gwirfoddolodd SP adrodd i'r gwersyllon nid yw hyn yn dderbyniol - Cytunwyd I drafod posibilrwydd gosod arwyddion ychwanegol yn geg y maes parcio bach mewn cyfarfod neilltuol. |
| **11.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a)** <u>**TÎM TACLUSO**</u><br>Y clerc i anfon nodyn i ddiolch i'r Tîm Tacluso am dacluso'r Ganolfan a gofyn am bosibilrwydd i lanhau safle' r toiledau.<br><br>**b)** <u>**LJ- YMDDISWYDDO**</u><br>Adroddodd LJ am ei dymuniad I ymddiswyddo o'r Cyngor. Diolchodd I'r aelodau am eu caredigrwydd tra'n cynrychioli'r Cyngor ac adroddodd am yr holl oedd wedi ei ddysgu am yr ardal. Teimlodd bellach buasai'r sedd yn siawns I ieuenctid genidedig o'r ardal adael ei marc.<br>Y clerc i weithredu ar hysbu'r sedd. |
| **12.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a)** <u>**CYFARFOD CYHOEDDUS - AMBIWLANS AWYR - YSGOL GLAN Y MÔR O 7YH AR 28AIN Ebrill**</u><br><br>**b)** <u>**HWB TÎM TACLUSO 'ARDAL NI'**</u><br><br>**c)** <u>**ANFONEB DANNY'S GARDENING SERVICES**</u><br><br>**d)** <u>**DYDDIADAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU – Ebrill**</u><br><br>**e)** <u>**BLEDDYN PRYS JONES – GEIFR YR ARDAL**</u><br><br>**f)** <u>**CYFYNGIADAU PARCIO ARFAETHEDIG SIOP Y GROES**</u><br><br>Rhannwyd y wybodaeth gyda'r aelodau'r, y clerc i weithredu ar eu sylwadau. |
| **13.** | **CYLLID** |
| | **a)** <u>**DATGANIAD BLYNYDDOL 2022/2023**</u><br>Cymeradwywyd y Datganiad gyda'r aelodau yn cytuno ei chywirdeb. |

b) **CYSONIAD A RHAGAMCANION 2023/24**

| CYSONIAD 2023 / 2024 | | | |
|---|---|---|---|
| + | CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2023 | | £ 9,614.09 |
| + | CYFRIF CADW MAWRTH 2023 | | £ 2,671.02 |
| - | LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC | | |
| + | GWARGED 2023 / 2024 | | -£ 627.20 |
| = | CRONFA'R CYNGOR | = | **£11,657.91** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Fawrth i 31 o Fawrth 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £12,290.74 |
| Derbyniadau | + | £0.00 |
| Gwariant | - | £2,676.65 |
| Balans Cau | = | **£9,614.09** |

**CYFRIF CYFREDOL - 07 o Chwefror i 6ef o Fawrth 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £2,664.80 |
| Derbyniadau | + | £6.22 |
| Gwariant | - | £1,465.30 |
| Balans Cau | = | **£2,671.02** |
| | = | **£12,285.11** |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | |
| | | = | **£ -** |

**LLAI SIECIAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Cyngor Gwynedd | 201275 | £ 133.20 |
| - | Danny's Gardening Services | 201276 | £ 230.00 |
| - | Gillian Thomas | 201277 | £ 264.00 |
| | | = | **£ 627.20** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR** | | = | **£11,657.91** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA'R DIFFIBLWR** | - | **£ 251.90** |
| = | **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** | = | **£11,406.01** |

| 14. | CYFARFOD NESAF Y CYNGOR |
|---|---|
| | 9fed o Fai, y Festri, Llithfaen i gychwyn gyda'r Cyfarfod Blynyddol – 7 y.h |